# Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol

## 29 Mehefin 2022

Yn bresennol: Cynghorydd Dr S Hancock, Cynghorydd R Jordan, Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan, Dr R Plummer a'r Cynghorydd A Wilcox.

[Ymunodd y Cynghorwyr M Wiggins a C Williams â'r cyfarfod yn ystod y cyflwyniad ar y Rhwydwaith Ysgolion Awyr Agored (gweler Cofnod 7).]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00yb – 11.50yb)

**1. Ethol Cadeirydd**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i ethol y Cynghorydd S Hancock yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

*[Cymerodd y Cynghorydd Hancock y Gadair a llywyddodd weddill y cyfarfod.]*

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i ethol Dr R Plummer yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Roedd y Cynghorydd M Wiggins wedi ymddiheuro y byddai'n ymuno â'r cyfarfod yn hwyr.

**4. Datgan Buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol; datganodd y Cynghorydd Dr S Hancock a Dr M Havard bod ganddynt fuddiant yn yr eitem ar y Bartneriaeth Ysgolion Awyr Agored (gweler Cofnod 7). Fodd bynnag arhosodd pob un yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau.

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022.

**6. Materion yn Codi o'r Cofnodion**

a) Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2022 (Cofnod 6)

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw ddiweddariad ynghylch dyfodol y prosiect cydweithredol i ddatblygu ymagwedd ranbarthol at

Ddatblygiadau Un Blaned a Gwella Bioamrywiaeth. Cytunodd y Prif Weithredwr i ymholi a rhoi gwybod i'r Aelodau.

b) Diolch (Cofnod 9)
Diolchwyd i Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd blaenorol y Pwyllgor am eu gwaith.

**NODWYD.**

**7. Cyflwyniad ar y Bartneriaeth Ysgolion Awyr Agored**

Eglurodd yr Arweinydd Tîm Darganfod bod y bartneriaeth hon wedi hen sefydlu ac wedi bod yn gweithio ar draws Sir Benfro am y 12 mlynedd diwethaf. Dau bennaeth lleol gychwynnodd y fenter yn 2010 fel modd o ennyn diddordeb athrawon a dysgwyr i dreulio amser yn yr awyr agored, ac ymdrin â phynciau ar draws y cwricwlwm cyfan. Roedd y Bartneriaeth yn cynhyrchu ei chyllid ei hun, ac ynghyd â chyllid prosiect, gallai'r bartneriaeth gyflogi cydlynydd rhan-amser i ddechrau. Erbyn hyn fodd bynnag roedd y cydlynydd presennol yn llawn amser oedd wedi galluogi'r prosiect i gyflawni mwy yn y blynyddoedd diwethaf hyn.

Aeth Cydlynydd Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro ymlaen i sôn bod Estyn (Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) yn cydnabod arferion da Ysgolion Awyr Agored ac yn tynnu sylw at fanteision dysgu yn yr awyr agored i ddisgyblion yn eu hadroddiadau. Roedd dysgu yn yr awyr agored hefyd yn ategu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru fyddai'n dod i rym o fis Medi. O ganlyniad i'r Pandemig, roedd gwefan Ysgolion Awyr Agored wedi'i datblygu, ac roedd hyn wedi galluogi i adnoddau gael eu rhannu'n eang a thu hwnt i Sir Benfro. Hefyd roedd dilynwyr niferus ar y cyfryngau cymdeithasol. Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddiant yn yr hydref 2021, ac roedd dros 20 o ysgolion wedi cymryd rhan yn Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru. Cynhaliwyd diwrnod i ddathlu llwyddiant y Bartneriaeth yn ddiweddar, pan roddwyd gwobrau i bob ysgol a gymerodd ran. Aeth y Cydlynydd rhagddi i rannu astudiaethau achos o'r gwaith oedd yn cael ei wneud yn Ysgolion Cynradd Neyland a Johnston, ac yn Ysgol Gyfun Aberdaugleddau oedd yn defnyddio dull Cynefin o ddysgu am y dyniaethau drwy archwilio eu hardal eu hunain. Nodwyd bod diwrnod agored yn Johnston fis Mai wedi denu 80 a mwy o athrawon, rhai yn teithio o Gaerdydd.

Roedd gwaith y Bartneriaeth wedi creu argraff ar yr Aelodau, gyda rhai wedi gweld y manteision i ysgolion drostynt eu hunain, a gofynnwyd a oedd hyn yn cael ei rannu yn ehangach â Pharciau Cenedlaethol a grwpiau eraill. Dywedodd yr Arweinydd Tîm Darganfod bod y gwaith wedi derbyn sylw yng Nghynhadledd Addysgwyr y Parciau Cenedlaethol a bod y model hefyd wedi ei fabwysiadu gan yr Awdurdodau Lleol cyfagos. Pwysleisiodd yr Aelodau hefyd pa mor bwysig yw arlwy addysgol yr Awdurdod a'r ymgysylltu â phobl ifanc o ganlyniad. Ychwanegodd y Prif

Weithredwr ei longyfarchiadau i'r swyddogion ar eu gwaith gan obeithio y byddai mwy o gefnogaeth i'r Bartneriaeth, boed yn ariannol neu fel arall, gan yr Awdurdod Addysg Lleol ac eraill wrth symud ymlaen.

**Nodwyd.**

**8. Diweddariad ar gyflwyno'r Rhwydwaith Gwefru Cerbydau Trydan**

Roedd y Rheolwr Prosiectau Adeiladu wedi cyflwyno adroddiad hwyr i'r Pwyllgor oedd yn amlinellu gwaith yr Awdurdod, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Penfro (CSP), i gyflawni rhwydwaith o fannau gwefru Cerbydau Trydan ar hyd a lled y Sir gyda'r nod o osod seilwaith gwefru cerbydau trydan 'cyflym' ar draws ei safleoedd, depos (yn barod ar gyfer trydaneiddio ei gerbydau cronfa a fflyd) ac mewn meysydd parcio gwefru sydd â phwyntiau gwefru 'cyflym iawn' mewn lleoliadau cyrchfan (hybiau). Nodwyd bod yr un unedau gwefru â CSP wedi'u gosod i sicrhau dull cydlynol a darpariaeth ddi-dor ar draws y sir. Cynlluniwyd y rhwydwaith i roi gwasanaeth cynhwysfawr ar draws Sir Benfro i fynd i'r afael ag anghenion gwefru cerbydau trydan y trigolion, yr ymwelwyr ac yn bennaf i gefnogi ac annog y newid i gerbydau trydan. O ystyried diwydiant twristiaeth hir sefydledig a hanfodol Sir Benfro, roedd y prosiect hefyd wedi galluogi'r sir i hyrwyddo'r cysyniad o 'eco-dwristiaeth' i ymwelwyr. Roedd y prosiect wedi cael cymorth o £1.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad o'r gwaith a wnaed ar draws y tri cam o'r prosiect oedd wedi arwain at osod 18 o Fannau Gwefru Cyflym Iawn a 95 o Fannau Gwefru Cyflym ledled y Sir, a chyflwynwyd map oedd yn nodi lleoliad y mannau hyn. Hefyd rhoddwyd trosolwg o’r trefniadau gweithredu a chynnal a chadw'r peiriannau gwefru. Byddai'r prosiect yn cael ei gwblhau fis Awst 2022, a byddai CSP yn parhau i gyflwyno rhagor o bwyntiau gwefru a byddai'r Awdurdod yn ystyried estyniadau i'r rhwydwaith yn y dyfodol wrth i'r galw gynyddu.

Llongyfarchodd yr Aelodau y swyddog ar gyflawni prosiect llwyddiannus, gan ddiolch iddo am yr adroddiad cynhwysfawr, a’u bod yn falch o weld y cydweithio mewn partneriaeth. Gofynnwyd am i adroddiad gwerthuso ar brofiad a defnydd gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor y flwyddyn nesaf. Gofynnodd yr Aelodau a oedd yn bosibl archebu gwefrydd ymlaen llaw er mwyn osgoi'r rhwystredigaeth o gyrraedd lleoliad i ganfod bod yr holl wefrwyr yn llawn neu ddim yn gweithio. Nid oedd y swyddog yn credu bod hyn yn bosibl, ond dywedodd mai profiad hyd yn hyn oedd bod defnyddwyr yn tueddu i wefru ychydig ac yn aml. Fodd bynnag, byddai'r defnydd o'r rhwydwaith yn cael ei fonitro fel bod modd cymryd camau unioni lle bo modd mewn unrhyw leoliadau prysur. Holodd Aelod arall ynglŷn â cholli llefydd parcio ceir nad ydynt yn geir trydan, ond cadarnhaodd y swyddog bod dal angen cael tocyn parcio mewn lle

gwefru trydan a’i fod o’r farn y byddai’r defnydd ohonynt yn cynyddu wrth i bobl ddod yn fwy ymwybodol o’u bodolaeth.

**Nodwyd.**

**9. Diweddariad ar y Rhybudd o Gynnig bod yr Awdurdod yn cychwyn trafodaethau gyda Chyngor Cymuned Llandyfái, ac unrhyw bartïon â buddiant, naill ai i roi neu i werthu tir yn Freshwater East ar gyfer darparu lle chwarae i blant.**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Rhybudd o Gynnig hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, a bod y mater wedi'i ystyried yn ei gyfarfod blaenorol pan benderfynwyd bod swyddogion yn cyfathrebu ymhellach â Chyngor Cymuned Llandyfái ynghylch darparu lle chwarae i blant yn Freshwater East ac adrodd yn ôl. Cafwyd sgyrsiau gyda'r unigolyn y tu ôl i'r syniad a Chadeirydd y Cyngor Cymuned ac awgrymwyd y gallai hyn fod yn fater o bryder i un unigolyn yn hytrach na'r Cyngor Cymuned yn ei gyfanrwydd. Hefyd roedd e-bost wedi'i anfon at y Clerc, fodd bynnag ni dderbyniwyd unrhyw ymateb ffurfiol. Awgrymwyd y dylid anfon nodyn atgoffa pellach, ac y byddai unrhyw gamau pellach yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 21 Medi, pryd y gellid gwneud penderfyniad ar ba gamau pellach, os o gwbl, y dylid eu cymryd, a gwneud argymhelliad i'r Awdurdod.

Cytunodd yr Aelodau bod hyn yn ffordd dda ymlaen, a gofynnwyd am i'r Cynghorydd Kidney, nad oedd bellach yn Aelod o'r Awdurdod, gael gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf.

**Nodwyd.**

[Cyflwynodd Dr M Havard ei hymddiheuriad a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol]

**10. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn Diweddu 31 Mawrth 2022**

Roedd yr adroddiad hwn yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2021/22 ac yn cyflwyno'r perfformiad am y flwyddyn ariannol lawn 21/22 gan gynnwys data Ch4 (Ionawr - Mawrth) ar gyfer setiau data perthnasol. Nodwyd y byddai’r data yn cael ei adolygu cyn ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar Gyflawni’r Amcanion Llesiant. Roedd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth wedi tynnu sylw at nifer o fesurau a chamau gweithredu i'r Pwyllgor mewn perthynas â gwaith yr Awdurdod.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad clir oedd yn dangos perfformiad rhagorol mewn blwyddyn fu'n flwyddyn anodd, a llongyfarchwyd pob tîm ar eu gwaith.

Er y nodwyd bod y graddfeydd coch/oren/gwyrdd yn goch ar gyfer rhai dangosyddion cynllunio, roedd yr Aelodau yn obeithiol y byddai'r mesurau a gymerwyd i geisio mynd i'r afael â'r sefyllfa yn arwain at ganlyniadau; mewn ymateb i gwestiwn, barnwyd ei bod yn annhebygol y byddai’r targedau yn cael eu cyrraedd yn y chwarter dilynol gan fod anawsterau wedi bod wrth recriwtio Swyddog Gorfodi, a bod angen hyfforddiant ar staff newydd. Fodd bynnag byddai diweddariad pellach yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. O ran y pwysau ar lwybr yr arfordir, dywedodd y Prif Weithredwr bod y pwysau yn sylweddol, ac nad oedd yr heriau recriwtio yn y maes hwnnw yn helpu’r sefyllfa. Ychwanegodd bod ffigurau’r llynedd ar gyfer cyfrifwyr llwybr yr arfordir i fyny 31% o gymharu â 2019, fodd bynnag nid oedd unrhyw arian ychwanegol wedi dod oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwnaed sylwadau ar nifer o ddangosyddion eraill, a lle bo modd byddai gwybodaeth bellach yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad nesaf.

**NODWYD**

**11. Rhaglen Waith y Flwyddyn sydd i ddod**

Gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i awgrymu unrhyw feysydd o waith yr Awdurdod y dymunent dderbyn adroddiadau arnynt yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Un awgrym oedd y gellid neilltuo pob cyfarfod i un o'r pedair elfen yn strategaeth yr Awdurdod – Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau. Nodwyd hefyd y byddai adroddiad ar y Cynllun Kickstart yn ddiddorol.

Gofynnwyd i'r Aelodau roi gwybod i’r swyddogion am unrhyw awgrymiadau pellach.

**NODWYD.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022 heb eu diwygio. |